



## Rhaglen Llysgenhadon STEM yng Nghymru

### Prosiect Ymgysylltu Gwyddoniaeth Cynradd

Mae STEMNET yn gweithio gydag ysgolion cynradd trwy helpu pobl ifanc a'u hathrawon wneud cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) yn eu hardal. Mae'r Rhaglen Llysgenhadon STEM yn adnodd RHAD AC AM DDIM ar gyfer ysgolion.

### Beth mae Llysgenhadon STEM yn ei wneud?

Mae Llysgenhadon STEM yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, sydd i gyd yn cael effaith ar ddysgu a mwynhad pobl ifanc o STEM, gan gynnwys:

- Cynorthwyo gyda phrosiectau STEM yn yr ystafell ddosbarth
- Beirniadu cystadlaethau STEM mewn ysgolion
- Cefnogi prosiectau mewn Clybiau STEM ar ôl ysgol
- Rhwydweithio gyda disgyblion, rhieni ac athrawon
- Cyflwyno arbrofion STEM ymarferol neu arddangosiadau.

### Ar ôl ymgysylltu gyda Llysgennad STEM

- Roedd 82% o athrawon yn adrodd 82% o athrawon yn adrodd fod gweithgarwch Llysgenhadon STEM yn gwella cymhelliant a dyhead disgyblion i astudio pynciau STEM ymhellach
- Roedd 85% o athrawon yn adrodd fod mwy o ymgysylltiad gan ddisgyblion mewn pynciau STEM
- Dywedodd 91% o'r athrawon eu bod yn bwriadu defnyddio Llysgenhadon STEM yn y dyfodol.

### Oeddech chi'n gwybod?

- Ar ôl ymgysylltu â Llysgennad STEM roedd 76% o'r disgyblion yn meddwl fod gwyddoniaeth yn bwysig ar gyfer bywyd bob dydd, 78% ar gyfer mathemateg
- 55% o'r disgyblion yn dweud eu bod yn mwynhau gwyddoniaeth; a hyn yn cynyddu i 71% ar gyfer disgyblion sydd wedi bod mewn cysylltiad gyda Llysgennad STEM a 80% ar gyfer aelodau'r Clwb STEM
- 87% o athrawon yn adrodd fod ganndynt fwy o ymwybyddiaeth o bynciau STEM a'u cymwysiadau yn y byd go iawn ymysg eu myfyrwyr o ganlyniad i raglenni STEMNET
- Yn rhy aml, mae merched yn cael eu harwain gan y gymdeithas i greu bod pynciau STEM yn bynciau gwrywaidd. Mae llawer o ferched mor ifanc ag wyth wedi colli diddordeb mewn gwyddoniaeth fel gyrfa. Gall Llysgenhadon STEM yn helpu i herio y camsyniad hwn drwy weithredu fel modelau rôl.

### Mae gofyn am Llysgennad STEM yn hawdd ...

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn Llysgennad STEM yn ymweld â'ch ysgol, llenwch y ffurflen gais STEM Llysgennad ar-lein, neu anfonwch e-bost at [cenhadon@gweld-gwyddoniaeth.co.uk](mailto:cenhadon@gweld-gwyddoniaeth.co.uk), neu ffoniwch 029 2080 1644. Rhwch gymaint o fanylion ag sy'n bosibl, gan gynnwys gwybodaeth am yr hyn hoffech i'r Llysgenhadon ddarparu a / neu gyflawni – bydd hyn yn ein galluogi i ddod o hyd i Llysgennad addas i'ch helpu.

### Yr hyn y mae athrawon a disgyblion yn ddweud

*"Mae Llysgennad STEM yn gallu ymestyn gwybodaeth y plant (ac athrawon) drwy gynnig gwahanol brofiadau sydd ddim ar gael yn yr ysgol ... mae wedi rhoi syniadau newydd ac adnoddau newydd i wella fy addysgu."* Jeff Lansing, Ysgol Iau Murch

*"Mae fy nisgyblion blwyddyn 3 yn cael eu budo yn llwyr gan waith y Llysgennad STEM. Roeddent yn gallu gwerthfawrogi a thrafod rôl gwyddoniaeth yn y byd go iawn a sut mae dysgu yn yr ysgol yn eu paratoi ar gyfer hyn."* A Bowerman, Ysgol Gynradd Llandochoau.

*"Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda Llysgennad STEM ac yn teimlo fod hyn wedi ysbrydoli'r plant mewn gwirionedd. Mae wedi rhoi cipolwg ar y ffaiith nad pwnc sydd yn cael ei ddysgu yn yr ysgol yn unig yw gwyddoniaeth, ond ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y byd ehangach."* Owen Good, Ysgol Ger y Llan.

*"Rwy'n credu fod gweithio gyda Llysgennad STEM wedi cael effaith enfawr ar agwedd y disgyblion tuag at wyddoniaeth. Mae wedi bod bob amser yn bwnc y maent yn ei fuynhau ... ond yn awr maent yn llawer mwy ymwybodol o'r ffordd y mae'n cysylltu â phynciau eraill."* Sarah Lewis, Ysgol Wdig

*"... Daeth rhywun i'n hysgol o'r enw Dr Rod James a dysgodd i ni sut i gael aur gan ddefnyddio papur bidlo. Roedd yn gymaint o bwyll"* disgyblion o Ysgol yr Eglwys yng Nghymru St Andrew Major

Mae Rhaglen STEMNET yn cael ei ddarparu yn lleol yng Nghymru gan Gweld Gwyddoniaeth. Cysylltwch â ni ar [cenhadon@gweld-gwyddoniaeth.co.uk](mailto:cenhadon@gweld-gwyddoniaeth.co.uk) neu ewch i ymweld â'n gwefan [www.gweld-gwyddoniaeth.co.uk](http://www.gweld-gwyddoniaeth.co.uk).

